# Cyngor dibynadwy ar adegau o newid.

**Adroddiad Effaith**

2023-2024



cyngor ar bopeth

citizens advice

# Cyngor ar Bopeth Cymru—Rydyn ni'n bodoli i lunio cymdeithas lle mae pobl yn wynebu llawer llai o broblemau.

Gall pob un ohonom wynebu problemau sy’n ymddangos yn gymhleth neu’n frawychus.

Yn Cyngor ar Bopeth, rydyn ni'n credu na ddylai neb orfod wynebu’r problemau hyn heb gyngor annibynnol o ansawdd da. Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Pan fyddwn ni’n dweud ein bod ni yma i bawb, rydyn ni o ddifrif. Mae pobl yn dibynnu arnom ni oherwydd ein bod ni’n annibynnol ac yn gwbl ddiduedd. Nid oes neb arall yn gweld cynifer o bobl â chymaint o wahanol fathau o broblemau, ac mae hynny’n rhoi dealltwriaeth unigryw i ni o’r heriau sy’n wynebu pobl heddiw. Gyda’r dystiolaeth gywir, gallwn ddangos i sefydliadau mawr—cwmnïau yn ogystal â’r llywodraeth—sut y gallant wneud pethau’n well i bobl. Dyna pam rydyn ni yma: i roi'r wybodaeth a'r hyder angenrheidiol i bobl allu canfod y ffordd ymlaen — pwy bynnag ydynt, a beth bynnag fo eu problem.

**"Hoffwn ddiolch i’r bobl a wnaeth fy nghyfeirio i’r cyfeiriad iawn i gael help ar gyfer fy mhroblem. Mae eu cyngor wedi arwain at yr help yr oedd ei angen arnaf. Rydw i mewn lle llawer gwell nawr. Diolch."**

# Neges gan Simon Hatch, Cyfarwyddwr Cyngor Ar Bopeth Cymru

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi cael effaith hynod arwyddocaol a chadarnhaol ar fywydau pobl ledled Cymru.

Ar draws ein 19 Cyngor ar Bopeth Lleol, mae gennym gannoedd o bobl fedrus a thalentog sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n cynnig cyngor annibynnol a diduedd bob dydd. Mae'n fraint gweithio gyda chydweithwyr mor brofiadol a gofalgar ar draws ein gwasanaeth. Mae eu gwaith yn hanfodol oherwydd bod angen gwaith Cyngor ar Bopeth Cymru yn awr yn fwy nag erioed. Mae nifer y bobl sy'n methu fforddio gwresogi eu cartrefi neu dalu eu biliau ar ddiwedd pob mis yn parhau i dyfu. Efallai fod yr argyfwng costau byw yng Nghymru wedi diflannu o'r rhan fwyaf o'r penawdau newyddion ond mae'n dal yn realiti dyddiol i'r bobl sydd angen ein gwasanaethau ac yn eu defnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at sut mae'r cyngor rydyn ni'n ei gynnig yn newid bywydau pobl drwy eu helpu i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Mae hefyd yn dangos sut rydyn ni, drwy wrando ar brofiadau ein cleientiaid, yn eiriol dros newid polisi hirdymor sy'n rhoi arian ym mhocedi pobl ac yn gwella bywydau yng Nghymru.

Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu mwy o bobl yng Nghymru nag erioed o'r blaen, ond rydyn ni hefyd yn gweld cynnydd hyd yn oed mwy yn nifer y bobl sydd eisiau ein gwasanaethau ac angen eu defnyddio. Fe wnaethon ni helpu dros 167,000 o bobl yn uniongyrchol yn 2023-2024 o'i gymharu â 154,000 o bobl y flwyddyn cynt, cynnydd o 9%. Mae ein partneriaethau hanfodol, gan gynnwys gyda Llywodraeth Cymru, yn ein galluogi i gefnogi'r cymunedau mwyaf agored i niwed ac ymylol yng Nghymru.

Fel elusen, mae angen cymorth arnom i barhau i gyflawni'r gwaith hanfodol hwn. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod cyngor annibynnol a diduedd ar gael bob amser, yn Gymraeg ac yn Saesneg, i helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen. Fe wnaethon ni helpu 167,000 o bobl yn uniongyrchol yn 2023-2024 o'i gymharu â 154,000 o bobl y flwyddyn cynt, cynnydd o 9%. Cafodd ein gwefan gynghori **1.6 miliwn** o ymweliadau. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai enghreifftiau o'r effaith bwerus y mae ein gwaith wedi'i chael, a sut rydyn ni'n parhau i addasu i helpu cynifer o bobl â phosibl.

# Ein heffaith mewn rhifau

Y llynedd, helpodd ein gwasanaeth dros 167,000 o gleientiaid ledled Cymru, y nifer uchaf ers y pandemig. Ymwelwyd â’n gwefan 1.6 miliwn o weithiau, gan arwain at filiynau o ymweliadau â'n tudalennau. Wrth i’r argyfwng Costau Byw barhau, gwelsom broblemau’n dod yn fwy cymhleth a mwy brys—roedden ni wedi helpu 13,000 yn fwy o gleientiaid na’r flwyddyn flaenorol, gydag 1 miliwn o broblemau.

**1.6 miliwn**
**miliwn o ymweliadau â’n gwefan**

**291,000**
**o bobl wedi cael helpu dros y ffôn**
(cynnydd o 53% o 123,835 yn 2022 i 2023)

**199,000**
**o bobl wedi cael help drwy e-bost**
(cynnydd o 75% o 50,375 yn 2022 i 2023)

**58,000**
**o bobl wedi cael eu helpu wyneb yn wyneb**
(cynnydd o 64% o 21,446 yn 2022 i 2023)

**7,500**
**o bobl wedi cael helpu drwy we-sgwrs**
(cynnydd o 35% o 11,367 yn 2022 i 2023)

**4,900**
**o dystion wedi cael cymorth drwy’r Gwasanaeth Tystion***
(cynnydd o 9% o 4,512 yn 2022 i 2023)

* Rydyn ni’n cynnig cymorth annibynnol am ddim i dystion a dioddefwyr ym mhob llys troseddol yng Nghymru, i’w helpu i roi eu tystiolaeth orau. Mae ein gwasanaeth yn cydnabod bod gan ddioddefwyr a thystion yn aml broblemau eraill sy’n cyd-fynd â’u pryderon ynghylch mynd i’r llys, ac rydyn ni'n gweithio’n agos gyda sefydliadau eraill—gan gynnwys swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol—i’w helpu i gael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen. Mae ein gwirfoddolwyr hyfforddedig wedi gweithio’n ddiflino i roi’r wybodaeth ymarferol a’r gefnogaeth emosiynol sydd eu hangen ar dystion i deimlo’n fwy hyderus wrth roi tystiolaeth.

# Ein gwerth i gymdeithas

Rydyn ni'n defnyddio model sefydledig i gyfrifo gwerth ariannol ein cyngor a'r canlyniadau cadarnhaol y mae'n eu rhoi i unigolion a'r gymdeithas.

**Cynhyrchwyd £58 miliwn** o arbedion i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus (buddiannau cyllidol). Drwy helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, rydyn ni'n lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel iechyd, tai neu fudd-daliadau diweithdra.

**Cynhyrchwyd £411 miliwn** gennym mewn buddion economaidd a chymdeithasol ehangach (gwerth cyhoeddus)—mae datrys problemau'n gwella bywydau, sy'n golygu gwell llesiant, cyfranogiad a chynhyrchiant i'r bobl rydyn ni'n eu helpu.

**£296 miliwn** o ran gwerth i bobl rydyn ni'n eu helpu (canlyniadau ariannol yn dilyn cyngor)—fel rhan o'n cyngor, gallwn gynyddu incwm pobl, drwy ddileu dyledion, cael gafael ar fudd-daliadau a datrys problemau defnyddwyr.

Mae'n amhosibl rhoi gwerth ar bopeth a wnawn, felly mae hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol. I gael rhagor o fanylion am yr arbedion hyn ac esboniad llawn o'n model, edrychwch ar ein modelu ariannol. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n amcangyfrif ein gwerth i gymdeithas, edrychwch ar ein hatodiad technegol.

# Y problemau rydyn ni wedi helpu pobl gyda nhw

Yn Cyngor ar Bopeth rydyn ni'n deall bod problemau pobl yn gorgyffwrdd ac yn croestorri—dydy pobl ddim yn dod atom ynglŷn ag un mater yn unig. Y llynedd, am y tro cyntaf, rhoesom gyngor i'n cleientiaid am 6 mater yr un ar gyfartaledd.

## Y prif fathau o faterion y bu ein hymgynghorwyr yn helpu pobl â nhw drwy'r Cyngor ar Bopeth Lleol

| Cymorth ar Bopeth Lleol | 2023-24 |
|---|---|
| Budd-daliadau | 478,940 |
| Gallu Ariannol a Dyled | 196,721 |
| Cyfleustodau a Chyfathrebu | 92,695 |
| Cymorth elusennol a Banciau bwyd | 49,749 |
| Tai | 50,671 |
| Cyflogaeth | 28,052 |

## Y prif feysydd cyngor y daeth pobl i'n gwefan ar eu cyfer oedd

| Ar-lein | 2023-24 |
|---|---|
| Budd-daliadau | 647,149 |
| Dyledion | 200,739 |
| Materion Defnyddwyr | 436,755 |
| Tai | 223,777 |
| Cyflogaeth | 219,235 |
| Perthnasoedd | 179,428 |

# Sut rydyn ni'n helpu pobl

## Rydyn ni’n gweld yr unigolyn cyfan.

Pan ddaw pobl atom am gymorth, byddwn yn edrych ar eu problemau mewn ffordd gyfannol. Rydyn ni'n edrych ar eu hamgylchiadau ac yn cynnig cyngor ar fudd-daliadau a chynyddu incwm, sy’n aml yn gallu helpu pobl i sylweddoli bod ganddynt hawl i gael gostyngiadau ar bethau fel cyfleustodau, y dreth gyngor a chymorth ychwanegol. Ac os na allwn ni helpu gyda phroblem benodol, rydyn ni’n gwybod pwy sy’n gallu gwneud hynny. Mae ein llwyfan atgyfeiriadau’n gweithio law yn llaw â gwasanaethau a phartneriaid lleol i wneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw, pwy bynnag maen nhw wedi cysylltu â nhw am gymorth am y tro cyntaf. Ac rydyn ni’n llais i’r bobl rydyn ni’n eu helpu. Wrth i ni helpu pobl i ddod o hyd i’w ffordd ymlaen, rydyn ni’n cyfateb eu profiad bywyd unigol â’r hyn rydyn ni’n ei weld yn ein gwaith achos cyffredinol. Mae eu straeon, a’n data pwerus, yn ein galluogi i ddeall problemau ehangach a dod o hyd i atebion effeithiol.

Wrth i ni helpu pobl i ddod o hyd i’w ffordd ymlaen, rydyn ni’n cyfateb eu profiad bywyd unigol â’r hyn rydyn ni’n ei weld yn ein gwaith achos cyffredinol.

**Mae ein llwyfan atgyfeiriadau’n gweithio law yn llaw â gwasanaethau a phartneriaid lleol i wneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw, pwy bynnag maen nhw wedi cysylltu â nhw am gymorth am y tro cyntaf**

# Ein gwasanaethau cynghori

Mae Advicelink Cymru yn wasanaeth wedi'i dargedu gan Gyngor ar Bopeth Cymru ar gyfer y bobl sydd fwyaf angen gwasanaethau cynghori. Mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan ei Gronfa Gynghori Sengl.

- Budd-daliadau llesiant
- Gallu ariannol a dyled
- Tai
- Cyflogaeth a gwahaniaethu
- Addysg

## Niferoedd Advicelink 2023-24:

**81,123**
**o bobl**

**402,475**
**o faterion**

**48 miliwn**
**cynnydd incwm**

**13.5 miliwn**
**miliwn o ddyledion**

**83%**
**o gleientiaid wedi cael help i ddod o hyd i ffordd ymlaen**

Mae ein data'n dangos yn glir bod gan bobl y mae angen ein help arnynt nifer o faterion cysylltiedig*, gyda budd-daliadau a chredydau treth, budd-daliadau a Chredyd Cynhwysol, a gallu a gwasanaethau ariannol a dyled yn cael eu hamlygu fel y materion mwyaf cyffredin eleni.

Mae Cyngor ar Bopeth yn cadw un cofnod ar bob unigolyn sy'n dod atom ni, p'un a ydyn ni'n eu helpu dros y ffôn, wyneb yn wyneb yn ein rhwydwaith o swyddfeydd lleol, neu drwy ein gwasanaeth negeseuon a chyngor dros e-bost. Mae pob cofnod yn cynnwys gwybodaeth am eu hoedran, eu rhyw, eu hethnigrwydd, eu hanabledd a'u cyngor lleol. Rydyn ni hefyd yn ychwanegu'r materion y maent yn ceisio cyngor yn eu cylch. Dim ond unwaith y mae materion parhaus yn cael eu cofnodi, ac mae materion newydd yn cael eu hychwanegu at y cofnod hefyd. Mae hyn yn golygu y gall cofnod gyfrif nifer o faterion ar draws 1 neu fwy o feysydd cyngor.

## Drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n methu fforddio hanfodion, fel bwyd ac ynni, gan arwain at gynnydd yn y ceisiadau am dalebau bwyd a thanwydd.

Mae Advicelink yn cynnwys nifer o wasanaethau a ddarperir mewn 6 rhanbarth ledled Cymru gan rwydwaith o swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol a phartneriaid cyngor a ariennir. Yn ogystal â gwasanaethau cymunedol ac arbenigol rhanbarthol, mae llinell ffôn o bell ledled Cymru, sef Advicelink hefyd yn cynnig y gwasanaethau canlynol:

**Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi**, ymgyrch manteisio i'r eithaf ar incwm a budd-daliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim dros y ffôn, am fudd-daliadau y gallai pobl fod â hawl iddynt. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cefnogi dros 30,000 o bobl eleni, 10,000 yn fwy na'r llynedd. Mae'r llinell gymorth benodol yn cael ei hyrwyddo drwy ymgyrchoedd hysbysebu ar y teledu, ar y radio ac ar-lein gan Lywodraeth Cymru.

**Llinell Gymorth Dyledion y Sector Rhentu Preifat**, gwasanaeth pwrpasol i helpu tenantiaid rhentu preifat yng Nghymru sy'n cael trafferth gyda phroblemau dyled. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl a allai fod yn teimlo'n ddiymadferth ac wedi'u llethu i symud tuag at deimlo eu bod wedi'u grymuso i gael trefn ar eu harian ac, yn y pen draw, aros yn eu cartrefi. Darperir y gwasanaeth gan linell gymorth benodol sy'n cynnig cyngor diduedd a chyfrinachol yn rhad ac am ddim.

**Lle i Anadlu Argyfwng Iechyd Meddwl**, gwasanaeth cyngor ar ddyledion wedi'i dargedu ar gyfer pobl mewn argyfwng iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth hwn yn gallu rhoi gwell amddiffyniad rhag gweithredu gan gredydwyr, gyda chefnogaeth Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, cyhyd â'u bod mewn argyfwng ers dros 30 diwrnod.

**Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal**, sy'n rhoi taliad misol o £1,600 i bobl ifanc sy'n gadael gofal pan fyddant yn 18 oed. Mae ein gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cymru yn rhoi cyngor uniongyrchol i bobl ifanc a chyngor a chefnogaeth 'ail haen' i weithwyr proffesiynol awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar bob cam, o weithio drwy gyfrifiad 'gwell eich byd', sy'n edrych ar eich sefyllfa ariannol cyn y cynllun peilot, i gyngor cyllidebu neu gymorth mewn argyfwng ariannol. Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gallu cael gafael ar gyngor diduedd sydd wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau unigol.

# Eiriolaeth a Chostau Byw

Roedd tîm Polisi ac Ymgyrchoedd Cymru wedi parhau i eirioli ar ran y bobl rydyn ni'n eu cefnogi ledled Cymru, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, y Senedd a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae ein Dangosfwrdd Canfyddiadau Data Cymru wedi bod yn adnodd allweddol o ran rhoi gwybodaeth berthnasol amser real i lunwyr polisïau am y trafferthion ariannol parhaus y mae llawer o'n cleientiaid yn eu hwynebu.

Yn 2023-24, fe wnaethom chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw, ar ôl cael gwahoddiad i gymryd rhan yn Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys cyfrannu at adroddiad ac argymhellion terfynol y grŵp. Roedd ein tystiolaeth hefyd yn rhan amlwg o adroddiad terfynol Pwyllgor Cydraddoldeb a Chymdeithasol y Senedd yn dilyn eu hymchwiliad i ddyled a chostau byw.

Roeddem hefyd wedi cyfrannu gwybodaeth werthfawr at nifer o ymgynghoriadau allweddol—roedd ein hymateb i'r Papur Gwyrdd ar Dai Digonol a Rhenti Teg, yn defnyddio tystiolaeth o grwpiau ffocws cynghorwyr i dynnu sylw at y rhwystrau sy'n wynebu ein cleientiaid o ran cael gafael ar dai addas a fforddiadwy. Rydyn ni hefyd yn parhau i fod yn aelod gweithredol o Grŵp Cyfeirio Allanol y Strategaeth Tlodi Plant, yn dilyn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth ddiwygiedig.

Fel rhan o'n hymgyrch eiriolaeth barhaus i'r rheini sy'n cael trafferth gyda biliau'r dreth gyngor, fe wnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Dreth Gyngor a gweithio'n agos gyda swyddogion ar y fenter Treth Gyngor Tecach, gan helpu i ddylanwadu ar newidiadau polisi sy'n diogelu cleientiaid ar incwm is yn well.

Yng nghanol pwysau prisiau ynni uchel, gan rannu gwybodaeth o'n gwasanaethau cynghori ac ymchwil sylfaenol ar effaith costau ynni ar aelwydydd yng Nghymru, buom yn gweithio gyda phobl eraill yng Nghlymblaid Tlodi Tanwydd Cymru (FPCC) i sicrhau newidiadau allweddol i fersiwn nesaf Rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru—eu prif fecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Cawsom ein hail-ethol hefyd i fod yn Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Defnyddwyr, sy'n cael ei gadeirio gan Sioned Williams AS lle gallwn wahodd rhanddeiliaid i drafod, codi pryderon ac ymwybyddiaeth o faterion defnyddwyr yng Nghymru.

# Ein hymrwymiad i'r Gymraeg

## Gwella mynediad yn Gymraeg

Yn Cygor ar Bopeth credwn y dylai pawb gael mynediad at gyngor o ansawdd da yn Gymraeg. Yn 2020, fe wnaethom lansio ein Cynnig Cymraeg Gweithredol i'n helpu i gynnig gwasanaeth gwell i bobl. Rydyn ni wedi gwneud cynnydd ond nawr mae angen i ni edrych i'r dyfodol a gweld sut byddwn ni'n gwreiddio'r Gymraeg yn ein gwasanaethau craidd er mwyn i fwy o bobl allu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw yn Gymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynyddu nifer y tudalennau Cymraeg ar ein gwefan genedlaethol, roedd yr holl ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol yn ddwyieithog ar amrywiaeth o bynciau fel Sgamiau, Ynni, Gamblo, Defnyddwyr, Budd-daliadau Lles, Dyledion a Thai. Rydyn ni wedi rhoi deunyddiau dysgu yn Gymraeg i staff a gwirfoddolwyr yn ogystal â gwersi Cymraeg am ddim i gynyddu sgiliau'r gweithlu. Mae cyflawni ein gwasanaethau'n fwy effeithiol yn Gymraeg ac i siaradwyr Cymraeg yn nod allweddol i'n Swyddog y Gymraeg a weithiodd yn ddiflino i gyflawni'r nod hwn—rydyn ni'n gwybod bod lle bob amser i wella profiad pobl wrth ddefnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg a byddwn yn parhau i wneud gwelliannau yn y maes hwn.



# Cynyddu ein cyrhaeddiad drwy bartneriaethau ystyrlon

Mae partneriaethau strategol a gweithredol yn elfen hanfodol o'n gwaith yng Nghymru. Mae ein gwasanaeth Advicelink Cymru wedi'i dargedu yn cynnig cyngor i bobl a chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, gyda dros 70% o gleientiaid yn cael eu cyrraedd yn gynnar.

Drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n cael eu harwain gan gymunedau ac sy'n gweithio gyda nhw, gallwn godi ymwybyddiaeth pobl o werth cyngor sy'n newid bywydau ac annog mwy o atgyfeiriadau i Gyngor ar Bopeth lleol. Fel hyn, gellir rhoi cyngor gyda sicrwydd ansawdd gyda chymorth cofleidiol gan bartneriaid. Gall y gefnogaeth hon fod yn ymarferol, yn emosiynol, yn glinigol neu'n gymdeithasol.

Mae sawl mantais i waith partneriaeth, yn cynnwys:

- Cynnig gwasanaethau cynghori i'r bobl hynny sydd fwyaf eu hangen, cyn iddynt fod mewn argyfwng.
- Llwybrau atgyfeirio cyflymach a symlach fel nad yw pobl yn llithro drwy'r rhwyd rhwng sefydliadau.
- Gwell dealltwriaeth o anghenion cyngor newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Adborth sy'n ein helpu i wneud yn siŵr bod ein cyngor a'n cefnogaeth yn cyd-fynd orau ag anghenion y sawl rydyn ni'n ei helpu.

Yn 2023-2024 gwelwyd twf yn ein gwaith partneriaeth ledled Cymru, gyda mwy o bartneriaid wedi cofrestru ar gyfer ein llwyfan atgyfeirio ar-lein. Roedd gennym bron i 93 o bartneriaid yn gwneud 3,963 o e-atgyfeiriadau, gan ddod â chyfanswm yr e-atgyfeiriadau i dros 18,829 ers i'r prosiect ddechrau yn 2020.

**"Rydyn ni mor falch ein bod wedi dod i Gyngor ar Bopeth. Chi yw'r gorau. Rydyn ni wedi gallu rheoli galwadau gan gredydwyr a dydy'r beilïaid ddim wedi dod yn ôl eto."**

# Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu pobl i ddod o hyd i ffordd ymlaen.

Rydyn ni'n rhoi cyngor cyfrinachol ac annibynnol am ddim i helpu pobl i oresgyn eu problemau. Rydyn ni'n llais i'n cleientiaid a'n defnyddwyr ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu.

Rydyn ni yma i bawb.

**citizensadvice.org.uk**


**Manylion cysylltu:**

Ar gyfer ymholiadau'r wasg, anfonwch e-bost at **press.office@citizensadvice.org.uk**
Os oes gennych ymholiadau am bartneriaethau, anfonwch e-bost at **policy.cymru@citizensadvice.org.uk**



© Cyngor ar Bopeth Hydref 2024

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth.
Rhif elusen gofrestredig 279057.